



Cais am drwydded amgylcheddol:

Rhan E1 – Hysbysiad ildio (gweithgareddau gollwng dŵr a gweithgareddau dŵr daear)

<p>Llenwch y rhan hon o'r ffurflen os ydych yn ein hysbysu eich bod yn ildio eich trwydded gyfan neu ran o'ch trwydded ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr neu weithgareddau dŵr daear.</p> <p>Gwnewch yn siwr mai hon yw'r fersiwn ddiweddaraf o'r ffurflen sydd ar gael oddi ar ein gwefan.</p> <p>Darllenwch drwy'r ffurflen hon a'r nodiadau canllaw a ddaeth gyda hi. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan.</p> <p>Noder: Os ydych yn gadael y safle neu'n symud tŷ, nid oes yn rhaid i chi ildio'r drwydded. Gallwch ei throsglwyddo i'r deiliad newydd gan ddefnyddio rhan D1.</p>	<p>Os ydych yn ystyried ildio trwydded i gael gwared ar drochdrwyth defaid gwastraff, a fydddech cystal â sicrhau eich bod wedi darllen y pwyntiau penodol sy'n ymwneud â'r arfer hon yn y nodiadau canllaw.</p> <p>Cynnwys</p> <ol style="list-style-type: none"> 1 Eich trwydded 2 Eich hysbysiad ildio 3 Ildio rhan neu rannau o'ch trwydded amgylcheddol 4 Y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded gyfan neu rannau o'r drwydded 5 Deddf Diogelu Data 1998 6 Datganiad
---	--

1 Eich trwydded

1a Rhif y drwydded

Rhif y drwydded rydych am ei hildio

GWN 1190/1/1

1b Beth yw enw'r gweithredwr neu'r gweithredwyr sy'n meddu ar y drwydded hon?

Enw'r corff cyhoeddus neu gwmni (os yw'n berthnasol)

D.V. + H.G. THOMAS.

Teitl

Enw cyntaf

DAVID a HUW

Cyfenw

THOMAS.

Os bydd eraill, nodwch eu manylion ar ddalen ar wahân a rhowch gyfeirnod y ddogfen rydych wedi ei roi ar y daflen hon

Cyfeirnod y ddogfen

1c Manylion y safle

Beth yw enw, cyfeiriad a chod post y safle hwn?

Enw'r safle

MEILLONYDD MAWR

Cyfeiriad

RHOSHIRWANN

PWLLHELI

GWYNEDD.

Cod post

LL53 8HU.

2 Eich hysbysiad ildio

Ticiwch isod er mwyn dangos p'un a ydych yn ein hysbysu eich bod yn ildio eich trwydded gyfan, neu ran ohoni.

Y drwydded gyfan ☒ Ewch i adran 4

Rhan o'r drwydded ☐ Ewch i adran 3

3 Ildio rhan neu rannau o'ch trwydded amgylcheddol

3a Llenwch Dabl 1 isod gan nodi manylion yr holl weithgareddau nad ydych yn eu gweithredu mwyach neu rydych yn bwriadu rhoi'r gorau i'w gweithredu

Llenwch linell ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd gollwng dŵr neu ddŵr daear rydych yn ei ildio. Os nad oes digon o le, anfonwch ddogfen ar wahân a nodwch gyfeirnod y ddogfen.

Cyfeirnod y ddogfen

Tabl 1 – Rhannau o'r drwydded rydych yn eu hildio

Disgrifiad o'r gweithgaredd gollwng dŵr (nodwch yr elfiant)	Disgrifiad o'r gweithgaredd gollwng dŵr daear (nodwch yr elfiant)	Nodwch pa gyfleuster neu gyfleusterau safonol ar eich trwydded safonol rydych am eu hildio	Cyfeirnod grid cenedlaethol eich pwynt samplu, pwynt gollwng neu ardal ollwng

3b A ydych o'r farn y bydd angen newid unrhyw amodau sy'n weddill ar y drwydded o ganlyniad i ildio rhan o'ch trwydded?

Nac ydw ☐

Ydw ☐ Llenwch ran C2 a'r rhan benodol ar gyfer y gweithgareddau perthnasol ar y ffurflen gais (C6 neu C7) gan nodi manylion sut y bydd angen newid amodau'r drwydded o ganlyniad i ildio rhan ohoni.

4 Y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded gyfan neu rannau o'r drwydded

Noder: rhaid bod y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded o leiaf 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddwch yn llenwi'r ffurflen hon.

Y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded (DD/MM/BBBB)

21/7/2019.

5 Diogelu data

Byddwn ni, y Corff Cyfoeth Naturiol i Gymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Cyfoeth Naturiol Cymru"), yn prosesu'r wybodaeth a ddarperir gennych er mwyn i ni allu gwneud y canlynol:

- ymdrin â'ch cais;
- sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded, caniatâd neu gofrestrriad;
- prosesu adnewyddiadau;
- sicrhau bod y cofrestrau cyhoeddus yn gyfredol.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu neu'n rhyddhau'r wybodaeth er mwyn gwneud y canlynol:

- cynnig dogfennau neu wasanaethau sy'n ymwneud â materion amgylcheddol i chi;
- ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill (er enghraifft, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar faterion amgylcheddol;
- cynnal gwaith ymchwil a gwaith datblygu ar faterion amgylcheddol;
- darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un sy'n gofyn amdani;
- atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith amgylcheddol, ymchwilio i achosion lle y gellid bod wedi torri'r gyfraith amgylcheddol, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen;
- asesu p'un a yw cwsmeriaid yn fodlon ar ein gwasanaeth, ac er mwyn gwella ein gwasanaeth;
- ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (os caniateir hynny yn ôl y Ddeddf Diogelu Data). Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'n hasiantiaid neu'n cynrychiolwyr er mwyn iddynt gyflawni'r uchod ar ein rhan.

6 Datganiad

Mae'n rhaid i chi ddarllen yr adran hon cyn gwneud y datganiad ac anfon eich ffurflen atom.

Dylai person perthnasol wneud y datganiad. Rhaid eich bod yn berson perthnasol neu rhaid bod gennych awdurdod gan berson perthnasol i lofnodi'r cais hwn ar ei ran.

Ystyr pobl berthnasol yw pob ymgeisydd, ac yn achos cwmni, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd y cwmni neu unrhyw swyddog neu gyflogai tebyg a restrir ar benodiadau cyfredol yn Nhŷ'r Cwmnïau. Yn achos Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP), mae'n cynnwys unrhyw bartner. Os mai sefydliad o unigolion yw deiliad y drwydded, rhaid i bob unigolyn (neu ymddiriedolwr unigol) gwblhau'r datganiad.

Er mwyn symleiddio a chyflymu'r broses gwneud cais, rydym yn argymhell y dylai un o swyddogion cwmni neu un o bartneriaid Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) lenwi'r datganiad.

Os ydych am i reolwr, cyflogai neu gynghorydd ac ati lofnodi'r datganiad ar ran person perthnasol, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnom gan berson perthnasol; hynny yw, un o swyddogion y cwmni, un o bartneriaid yr LLP neu'r unigolyn, yn cadarnhau bod gan y person yr awdurdod i lenwi'r datganiad.

Os ydych yn ddeiliaid trwydded ar y cyd, dylai pob un ohonoch lenwi eich datganiad eich hun. Rydym wedi darparu lle ychwanegol er mwyn gwneud hyn isod. A fydddech cystal ag anfon dalen ar wahân gyda'ch cais os bydd angen mwy o le arnoch ar gyfer llofnodwyr.

Os yw'r gweithredwr yn destun unrhyw weithdrefn ansolfedd, rhaid i'r derbynnydd swyddogol/ymarferydd ansolfedd penodedig lenwi'r datganiad.

6a A ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran person perthnasol?

Os *nad* ydych yn berson perthnasol, ond eich bod am lofnodi'r cais ar ei ran, rhaid i chi gynnwys cadarnhad y gallwch wneud hyn.

Rwyf wedi cynnwys cadarnhad ysgrifenedig gan berson perthnasol er mwyn cadarnhau y gallaf lofnodi ar ei ran. ☐

6b Llofnodwch er mwyn cadarnhau eich bod yn deall y datganiad.

Os byddwch yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn eich helpu i gael trwydded amgylcheddol (i chi'ch hun neu berson arall), rydych yn cyflawni trosedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwyf yn deall y gellir gwrthod y cais hwn neu y gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn.

Rwyf yn deall, os byddaf yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid:

- y gellir fy erlyn; ac
- os caf fy nghollfarnu, y gall fod yn rhaid i mi dalu dirwy a/neu fynd i'r carchar.

Drwy lofnodi isod, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall y datganiad uchod ac yn cytuno â'r datganiad hwnnw.

Teitl

 

Enw cyntaf

DAVID

Cyfenw

THOMAS

Ar ran (os yw'n berthnasol)

D.V. + H.G. THOMAS

Dyddiad heddiw (DD/MM/BBBB)

01/07/2019.

Os byddwch yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn eich helpu i gael trwydded amgylcheddol (i chi'ch hun neu berson arall), rydych yn cyflawni trosedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwyf yn deall y gellir gwrthod y cais hwn neu y gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn.

Rwyf yn deall, os byddaf yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid:

- y gellir fy erlyn; ac
- os caf fy nghollfarnu, y gall fod yn rhaid i mi dalu dirwy a/neu fynd i'r carchar.

Drwy lofnodi isod, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall y datganiad uchod ac yn cytuno â'r datganiad hwnnw.

Teitl

Enw cyntaf

Cyfenw

Ar ran (os yw'n berthnasol)

Dyddiad heddiw (DD/MM/BBBB)

Os byddwch yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn eich helpu i gael trwydded amgylcheddol (i chi'ch hun neu berson arall), rydych yn cyflawni trosedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwyf yn deall y gellir gwrthod y cais hwn neu y gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn.

Rwyf yn deall, os byddaf yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid:

- y gellir fy erlyn; ac
- os caf fy nghollfarnu, y gall fod yn rhaid i mi dalu dirwy a/neu fynd i'r carchar.

Drwy lofnodi isod, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall y datganiad uchod ac yn cytuno â'r datganiad hwnnw.

Teitl

Enw cyntaf

Cyfenw

Ar ran (os yw'n berthnasol)

Dyddiad heddiw (DD/MM/BBBB)